Cyllid & Tollau EM

# Asedion mewn perchnogaeth ar y cyd

Atodlen IHT404

## Pryd i ddefnyddio'r ffurflen hon

Llenwch y ffurflen hon i roi manylion unrhyw asedion yr oedd yr ymadawedig yn berchen arnynt ar y cyd ag unrhyw berson arall.

Peidiwch â chynnwys y canlynol:

- asedion mewn perchnogaeth ar y cyd y tu allan i'r DU - dylid cynnwys yr asedion hyn ar ffurflen IHT417, 'Asedion tramor'
- asedion mewn perchnogaeth ar y cyd gan fusnes neu bartneriaeth - dylid cynnwys yr asedion hyn ar ffurflen IHT413, 'Business and partnership interests and assets'

Os yw'r asedion mewn perchnogaeth ar y cyd yn cynnwys tai, tir neu adeiladau a buddiannau mewn tir, bydd yn rhaid i chi hefyd lenwi ffurflen IHT405, 'Tai, tir, adeiladau a buddiannau mewn tir' i ddarparu disgrifiad llawn o'r tir a'r eiddo.

**Asedion mewn perchnogaeth ar y cyd pan ddarparwyd yr holl arian gan yr ymadawedig**

Weithiau gellir perchenogi asedion ar y cyd â pherson arall, ond un person a ddarparodd yr holl arian, naill ai mewn cyfrif neu i brynu ased. Er enghraifft, gallai person oedrannus sy'n ei chael yn anodd mynd allan ychwanegu enw perthynas at gyfrif er hwylustod fel y gall y berthynas godi arian ar ran y person oedrannus.

Os bydd y person a ddarparodd yr holl arian yn marw, yna bydd ei gyfran o'r cyfrif hwn yn cynnwys yr holl gyfrif. Ond os bydd y cydberchennog arall wedi codi arian at ei ddefnydd ei hun, gallai'r arian a godwyd fod yn rhoddion ac efallai y bydd angen i chi eu cynnwys ar ffurflen IHT403, 'Rhoddion a throsglwyddiadau eraill o werth'.

Os bu farw rhywun gyda'i enw ar gyfrif ar y cyd ond na wnaeth ddarparu unrhyw ran o'r arian, mae'n dilyn na fydd angen cynnwys unrhyw ran o'r cyfrif yn yr ystâd oni bai bod y cydberchennog arall wedi bwriadu gwneud rhodd i'r ymadawedig.

Os nad oes digon o le ar dudalennau 2 i 6 i gynnwys yr holl fanylion, llenwch gopi arall o'r ffurflen hon.

**Asedion mewn perchnogaeth ar y cyd â phriod neu bartner sifil sy'n goroesi**

Os mai'r cydberchennog arall oedd priod neu bartner sifil yr ymadawedig, yna ym mlychau 1 a 6 bydd angen i chi lenwi colofnau A, B, F ac G yn unig.

**Treth Etifeddiant ar gyfradd is**

Os yw'r ystâd yn gymwys i dalu'r Dreth Etifeddiant ar gyfradd is yna bydd rhaid i chi hefyd lenwi ffurflen IHT430, 'Reduced rate of Inheritance Tax'.

**Sut i brisio asedion mewn perchnogaeth ar y cyd**

Nid yw'r gostyngiad ar gyfer asedion mewn perchnogaeth ar y cyd yn eithriad nac yn rhyddhad, ac **mae'n rhaid peidio** â'i gynnwys ym mlwch 4 ar dudalen 3, nac ym mlwch 9 ar dudalen 5. Darllenwch 'Sut i brisio eiddo mewn perchnogaeth ar y cyd', gan gynnwys yr enghreifftiau, yn y nodiadau arweiniad ynglŷn â ffurflen IHT404 yn yr IHT400, 'Nodiadau'.

**Enw'r ymadawedig**

| |
|---|
| |
| |

**Dyddiad y farwolaeth** DD MM BBBB

**Cyfeirnod Treth Etifeddiant** os yn hysbys

## Help

Darllenwch y nodiadau arweiniad ar gyfer ffurflen IHT404 yn yr IHT400, 'Nodiadau', cyn llenwi'r ffurflen hon. Am ragor o wybodaeth neu gymorth neu gopi arall o'r ffurflen hon:

- ewch i **www.gov.uk/inheritance-tax**
- ffoniwch ein llinell gymorth ar **0300 200 1900** – os byddwch yn ffonio o'r tu allan i'r DU ffoniwch **+44 300 200 1900**

## Asedion mewn perchnogaeth ar y cyd

Dylai'r dudalen hon gynnwys dim ond manylion yr asedion canlynol sydd mewn perchnogaeth ar y cyd:

- tai, adeiladau a thir
- cyfranddaliadau a gwarantau a roddodd reolaeth dros y cwmni i'r ymadawedig

Os nad oes rhai, ysgrifennwch '0' ym mlwch 1.

1

| Rhifwch bob eitem (1,2,3) | A<br>Disgrifiad o'r ased<br>Os mai tŷ'r ymadawedig yw'r ased (a ddangosir ar ffurflen IHT400, blwch 11) ysgrifennwch 'tŷ'r ymadawedig' yma a nodwch a yw'n eiddo rhydd-ddaliol neu brydlesol | B<br>Enwau cydberchnogion eraill a'u perthynas â'r ymadawedig | C<br>Dyddiad y dechreuodd y berchnogaeth ar y cyd<br>DD MM BBBB | D<br>Cyfraniad gan bob cydberchennog<br>Dangoswch fel ffracsiynau neu ffigurau ariannol | E<br>Cyfran yr incwm a gafwyd gan bob cydberchennog (os o gwbl) | F<br>Gwerth yr eitem gyfan ar ddyddiad y farwolaeth<br>£ | G<br>Gwerth cyfran yr ymadawedig ar ddyddiad y farwolaeth<br>£ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |
| | | | | | | Cyfanswm gwerth cyfran yr ymadawedig (ychwanegwch at ei gilydd yr holl gofnodion yng ngholofn G) 1 | £ |

## Rhwymedigaethau ar gyfer yr asedion mewn perchnogaeth ar y cyd a ddangosir ym mlwch 1

Rhowch fanylion unrhyw forgeisi neu fenthyciadau a warantwyd yn erbyn yr asedion mewn perchnogaeth ar y cyd a ddangosir ym mlwch 1. Os nad oes rhai, ysgrifennwch '0' ym mlwch 2.

**Peidiwch â** chynnwys biliau'r cartref yma. Rhowch fanylion biliau ar y cyd ar gyfer y cartref ym mlwch 7 ar dudalen 5 o'r ffurflen hon yn lle hynny.

2

| Rhif yr eitem a ddangosir ym mlwch 1 | Disgrifiad o'r rhwymedigaeth | Enw'r credydwr | Cyfanswm sy'n weddill ar ddyddiad y farwolaeth £ | Cyfran yr ymadawedig o'r swm sy'n weddill £ |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | Cyfanswm cyfran yr ymadawedig **2** | £ |
| | | | Asedion net (blwch 1 llai blwch 2) **3** | £ |

## Eithriadau a rhyddhadau ar gyfer yr asedion mewn perchnogaeth ar y cyd a ddangosir ym mlwch 1

Rhowch fanylion unrhyw eithriadau neu ryddhadau a hawliwyd ar yr asedion mewn perchnogaeth ar y cyd a ddangosir ym mlwch 1. Os nad oes rhai, ysgrifennwch '0' ym mlwch 4.

**Peidiwch** â chynnwys gostyngiad ar gyfer asedion mewn perchnogaeth ar y cyd yma. Gweler 'Sut i brisio asedion mewn perchnogaeth ar y cyd' ar dudalen 1.

4

| Rhif yr eitem a ddangosir ym mlwch 1 | Manylion y rhyddhad neu'r eithriad a ddidynnwyd<br>Er enghraifft, os yw'r asedion mewn perchnogaeth ar y cyd a ddangosir ym mlwch 1 yn cael eu trosglwyddo i briod neu bartner sifil yr ymadawedig neu i elusen, dylech ddidynnu eithriad priod neu bartner sifil neu elusen yma. Os ydych yn didynnu eithriad elusen, nodwch enw llawn yr elusen, y wlad lle'i sefydlwyd, a chyfeirnod adran elusennau Cyllid a Thollau EM, os yw ar gael. | Swm yr eithriad neu'r rhyddhad £ |
|---|---|---|
| | | |
| | Cyfanswm yr eithriadau a'r rhyddhadau **4** | £ |
| | Cyfanswm net yr asedion mewn perchnogaeth ar y cyd (blwch 3 llai blwch 4) **5** | £ |
| | | Copïwch y swm hwn i ffurflen IHT400, blwch 49 |

## Asedion eraill mewn perchnogaeth ar y cyd

Rhowch fanylion asedion eraill mewn perchnogaeth ar y cyd **nas** rhestrwyd ym mlwch 1, er enghraifft, cyfrifon banc, nwyddau'r tŷ a nwyddau personol. Os nad oes rhai, ysgrifennwch '0' ym mlwch 6.

6

| Rhifwch bob eitem (1,2,3) | A<br>Disgrifiad o'r ased<br>Dylech gynnwys rhif y cyfrif ar gyfer cyfrifon banc | B<br>Enwau cydberchnogion eraill a'u perthynas â'r ymadawedig | C<br>Dyddiad y dechreuodd y berchnogaeth ar y cyd<br>DD MM BBBB | D<br>Cyfraniad gan bob cydberchennog<br>Dangoswch fel ffracsiynau neu ffigurau ariannol | E<br>Cyfran yr incwm a dderbyniwyd gan bob cydberchennog (os o gwbl) | F<br>Gwerth yr eitem gyfan ar ddyddiad y farwolaeth<br>£ | G<br>Gwerth cyfran yr ymadawedig ar ddyddiad y farwolaeth<br>£ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |

Cyfanswm gwerth cyfran yr ymadawedig (ychwanegwch at ei gilydd yr holl gofnodion yng ngholofn G) 6 £

## Rhwymedigaethau ar gyfer yr asedion eraill mewn perchnogaeth ar y cyd a ddangosir ym mlwch 6

Rhowch fanylion unrhyw rwymedigaethau i'w didynnu oddi wrth yr asedion eraill mewn perchnogaeth ar y cyd a ddangosir ym mlwch 6. Os nad oes rhai, ysgrifennwch '0' ym mlwch 7.

7

| Rhif yr eitem a ddangosir ym mlwch 6 | Disgrifiad o'r rhwymedigaeth<br>Er enghraifft, cyfrif banc ar y cyd sydd mewn dyled neu filiau ar y cyd ar gyfer y cartref megis treth gyngor sydd heb ei thalu | Enw'r credydwr | Cyfanswm heb ei dalu ar ddyddiad y farwolaeth<br>£ | Cyfran yr ymadawedig o'r swm sy'n weddill<br>£ |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | Cyfanswm cyfran yr ymadawedig **7** | £ |
| | | | Asedion net (blwch 6 llai blwch 7) **8** | £ |

## Eithriadau a rhyddhadau ar gyfer yr asedion mewn perchnogaeth ar y cyd a ddangosir ym mlwch 6

Rhowch fanylion unrhyw eithriadau neu ryddhadau a hawliwyd ar yr asedion mewn perchnogaeth ar y cyd a ddangosir ym mlwch 6. Os nad oes rhai, ysgrifennwch '0' ym mlwch 9.
**Peidiwch** â chynnwys gostyngiad ar gyfer asedion mewn perchnogaeth ar y cyd yma. Gweler 'Sut i brisio asedion mewn perchnogaeth ar y cyd' ar dudalen 1.

9

| Rhif yr eitem a ddangosir ym mlwch 6 | Manylion y rhyddhad neu'r eithriad a ddidynnwyd<br>Er enghraifft, os yw'r asedion mewn perchnogaeth ar y cyd a ddangosir ym mlwch 6 yn cael eu trosglwyddo i briod neu bartner sifil yr ymadawedig neu i elusen, dylech ddidynnu eithriad priod neu bartner sifil neu elusen yma. Os ydych yn didynnu eithriad elusen, nodwch enw llawn yr elusen, y wlad lle'i sefydlwyd a chyfeirnod adran elusennau Cyllid a Thollau EM, os yw ar gael. | Swm yr eithriad neu'r rhyddhad<br>£ |
|---|---|---|
| | | |
| | Cyfanswm yr eithriadau a'r rhyddhadau **9** | £ |
| | Cyfanswm net yr asedion mewn perchnogaeth ar y cyd (blwch 8 llai blwch 9) **10** | £ |

Copïwch y swm hwn i ffurflen IHT400, blwch 50

# Asedion goroesedd

Ar farwolaeth un o'r cydberchnogion bydd rhai asedion ar y cyd yn cael eu trosglwyddo drwy oroesedd i'r cydberchennog/cydberchnogion sydd ar ôl. Nid yw asedion sy'n cael eu trosglwyddo drwy oroesedd yn cael eu trosglwyddo o dan delerau ewyllys person neu, os nad oedd wedi gadael ewyllys, o dan reolau diewyllysedd.

Mae angen i ni wybod pa asedion sy'n cael eu trosglwyddo drwy oroesedd am ddau reswm:

- er eu bod yn cael eu cynnwys yn yr ystâd at ddibenion Treth Etifeddiant, **ni** chânt eu cynnwys at ddibenion profiant na Chadarnhad
- os oedd y farwolaeth ar ôl 6 Ebrill 2012 a bod yr ystâd yn gymwys i dalu'r Dreth Etifeddiant ar gyfradd is

Mae'r rheolau yn wahanol ar gyfer asedion yng Nghymru a Lloegr neu yng Ngogledd Iwerddon (Cyfraith Lloegr) o'u cymharu a'r rheiny yn yr Alban (Cyfraith yr Alban).

**Cyfraith Lloegr**

Os mai bwriad holl gydberchnogion ased yw, pan fydd un ohonynt yn marw, y bydd ei ran yn cael ei throsglwyddo i'r cydberchnogion eraill, yna mae hwn yn ased goroesedd. Mae'r math hwn o ased bob amser mewn perchnogaeth hafal ac mae cyfran yr ymadawedig yn cael ei throsglwyddo i'r cydberchnogion eraill drwy oroesedd.

Fel arfer caiff cyfrifon ar y cyd mewn banciau a chymdeithasau adeiladu eu cadw yn y modd hwn. Gellir dal tai a thir mewn perchnogaeth ar y cyd yn y modd hwn neu fel 'tenantiaid cydradd' pan fo pob cydberchennog yn berchen ar gyfran eglur o'r eiddo a gall drosglwyddo ei gyfran ei hun drwy ewyllys i unrhyw un y mae'n ei ddewis. I gael gwybod a yw tŷ neu dir mewn perchnogaeth ar y cyd yn ased goroesedd bydd angen i chi ddarllen y dogfennau trawsgludiad.

**Cyfraith yr Alban**

Os perchenogir asedion yn enwau'r cydberchnogion 'a'r goroeswr' (yr enw ar hyn yw 'cyrchfan arbennig' (special destination) neu 'gyrchfan goroesedd' (survivorship destination)), neu os caiff goroesedd ei grybwyll o gwbl yng ngweithredoedd eiddo etifeddadwy, bydd cyfran yr un cyntaf i farw fel arfer yn cael ei throsglwyddo drwy oroesedd i'r cydberchnogion eraill.

Nid yw cyrchfannau goroesedd mewn cyfrifon ar y cyd mewn banciau a chymdeithasau adeiladu ynddynt eu hunain yn trosglwyddo perchnogaeth o'r arian i'r goroeswr ar farwolaeth y cydberchennog cyntaf. Mae perchnogaeth yn parhau gyda'r darparwr oni bai y bu rhyw weithred drosglwyddo bellach, er enghraifft, gweithred rodd. Yn absenoldeb unrhyw weithred arall ar farwolaeth y darparwr, bydd y cyfrif llawn yn cael ei drosglwyddo yn unol â thelerau'r ewyllys neu, os nad oes ewyllys yn bodoli, drwy reolau diewyllysedd.

**Polisïau bywyd a goroeswr ar y cyd**

Os oedd hawl gan yr ymadawedig i elwa o bolisi bywyd a goroeswr ar y cyd, mae'r polisi yn fwy tebygol o gael ei drosglwyddo drwy oroesedd na thrwy ewyllys, ond mae hwn yn faes cymhleth. Dylech hefyd lenwi ffurflen IHT410, 'Aswiriant bywyd a blwydd-daliadau'. Mae rhagor o wybodaeth ynglŷn â pholisïau aswiriant bywyd yn **www.gov.uk/inheritance-tax**

**11** **A drosglwyddwyd unrhyw ased a restrwyd ym mlwch 1 neu flwch 6 ar y ffurflen hon i'r cydberchnogion eraill drwy oroesedd?**

Naddo ☐ Nodwch '0' ym mlwch 11 (colofn B) ac yna ewch i flwch 12

Do ☐ Rhestrwch yr asedion a drosglwyddwyd drwy oroesedd yng ngholofn A, a'r rhwymedigaethau a ddidynnwyd oddi wrth yr asedion hynny yng ngholofn B

| Rhif y blwch (1 neu 6) | Rhif yr eitem | **A** Gwerth cyfran yr ymadawedig cyn didynnu rhwymedigaethau ac eithriadau £ | **B** Gwerth y rhwymedigaethau a ddidynnwyd £ |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | Cyfanswm **11** | £ | £ |
| | | Cyfanswm colofn A | Cyfanswm colofn B |

**12** **Blwch 2 plws blwch 7 llai blwch 11 (colofn B)** £

**13** **Blwch 2 plws blwch 4 plws blwch 7 plws blwch 9** £